



Croeso: beginners' Welsh

Likes and dislikes

This section deals with expressing your opinion by talking about your likes and dislikes:

Here are some young people talking about what they like doing. Notice that they use **Rydw i** instead of **Dw i**.

Shw' mae? Fy enw i ydy Laura a fy hobi i ydy cerddoriaeth.

Rydw i'n hoffi coginio.

Rydw i'n hoffi actio.

Rydw i'n hoffi canu.

Rydw i'n hoffi gwneud chwaraeon.

Rydw i'n hoffi chwarae pêl-droed a chwarae piano, a dw i'n hoffi chwarae rygbi.

Gwrandewch ar Lynda a Gordon yn dweud eu barn ar ambell beth. See how much you can understand when Lynda and Gordon give their views on a few topics:

Gordon: Dw i'n meddwl bod Caerdydd yn rhy brysur.

Lynda: Dw i'n meddwl bod Caerdydd yn ddinas hardd.

Gordon: Dw i'n meddwl bod Hilary Clinton yn bert iawn.

Lynda: Dw i'n meddwl bod Hilary Clinton yn alluog ac yn gyfoethog.

Gordon: Dw i'n meddwl bod Pobol y Cwm yn rhaglen ddiflas iawn.

Lynda: Dw i'n meddwl bod Pobol y Cwm yn ddiddorol.

Dyma ambell beth dyn nhw ddim yn hoffi:

Gordon: Dw i'n casáu bwyta tomatos.

Lynda: Dw i ddim yn hoffi bwyta cig.

Gordon: Mae'n gas gyda fi chwarae chwaraeon.

Lynda: Dw i'n casáu chwaraeon ar y teledu yn enwedig rygbi a pêl-droed.

Gordon: Dw i ddim yn hoffi edrych ar y teledu.

Lynda: Dw i ddim yn hoffi rhedeg. Mae'n gas gyda fi redeg

Finally, Helen gives her views about two famous people:

Dw i'n meddwl bod Barak Obama yn berson ddiddorol iawn. Wrth gwrs, fe yw'r person du cyntaf i fod yn arlywydd yn America. Mae'n ifanc, mae'n dalentog ac, wrth

gwrs, mae e'n olygus hefyd. A mae teulu hyfryd gyda fe, gwraig a dwy ferch fach bert hefyd. A dw i, fel pawb arall, yn gobeithio bydd e'n llwyddiannus iawn yn ei waith. Mae'n amser cyffrous iawn i America.

Wel, dw i'n meddwl bod llawer o ddynion yn hoffi Kathryn Jenkins. Mae hi'n ifanc ac yn bert a gwallt hir, golau ... a tipyn bach fel *Barbie* falle. Ond na, chwarae teg, mae hi yn gallu canu'n dda iawn. Mae hi'n canu'n hyfryd. Mae'n ferch dalentog iawn a mae'n perfformio'n wych, a hefyd mae hi'n gallu siarad Cymraeg. Fi sy'n genfigennus falle!